
Rhif. 2 Gwanwyn 1993 25c

# Heddwch

## NEWYDDION GWEITHREDU




## Gwerthu allan

Mae staff yn Sefydliad Arfau Atomig Caerdydd yn gorfod paratoi y mis yma ar gyfer gam i dir anhysbys wrth i'r ffatri symud tuag at 'gontracteiddio' – trosglwyddo i reolaeth gan y sector breifat.

Ar Ebrill 1af bydd y contractwyr preifat Hunting Brae yn mynd yn gyfrifol am reolaeth safle a staff Ffatri Trident Caerdydd a hefyd y ddwy ffatri ergydion niwclear yn Aldermaston a Burghfield yn Berkshire.

Mae undebau llafur yn y SAA wedi mynegi pryder droeon y bydd contracteiddio yn arwain at ostwng safonau diogelwch a cholli swyddi. Yn y pen draw, gallai contracteiddio arwain at gau ffatri Caerdydd os penderfyna'r rheolwyr newydd gwtogi ar gostau gweithredu dwry ganoli cynhyrchu ergydion o hyn ymlaen yn y ddau safle yn Berkshire.

Mae hyd yn oed Gwilym Jones, AS Toriaidd yr etholaeth sy'n cynnwys y SAA wedi galw am sicrwydd na chaniateir i safonau diogelwch lithro wedi contracteiddio.

Consortiwm o dri chontractydd gwahanol yw rheolwyr newydd y SAA, Hunting Brae: y cynhyrchwyr arfau Hunting Engineering; Brown and Root, cwmni Americanaidd; ac AEA Technology, sef cyn-Awdurdod Ynni Atomig y DU a oedd yn gyfrifol am ddatblygu ynni niwclear.

Brown a Root sydd ar hyn o bryd â'r contract rheolaeth ar iard longau'r llynges yn Devonport lle gwneir gwaith cynnal a chadw ar longau tanfor niwclear. Yn sgil dyfodiad Brown a Root, diswyddwyd miloedd o weithwyr Devonport a llaciwyd safonau diogelwch ar gyfer gweithwyr ymbelydredd – argoelion difrifol o safbwynt gweithwyr y SAA.

## Gair i gall

Yn ystod y cyfnod o gwmpas Diwrnod Datgan Cymru Ddi-Niwclear – 23ain Chwefror – cyflwynwyd cynghorwyr ledled Cymru â chardiau a chennin pedr wrth iddynt fynychu cyfarfodydd cyngor. Dathlodd aelodau CND Cymru 11eg penblwydd arwyddo'r ddogfen drwy atgoffa cynghorau o'r bwriad a fynegwyd ganddynt yn y ddogfen, sef gwneud Cymru yn wlad ddi-niwclear. Yn y cerdyn, sy'n dwyn llun o golomen a'r gair Heddwch mewn llawer o wahanol ieithoedd, roedd y neges 'Cymru Ddi-Niwclear – dal yn ddelfryd gwerth gweithio drosto'. Aeth llythyr allan gyda'r cerdyn, gan Gadeirydd CND, yr ASE David Morris ....

**CND Cymru**
Yr Ymgyrch Dros Ddiarfogi Niwclear
Campaign for Nuclear Disarmament

Chwefror 1993
Annwyl Gynghorydd,

Croeso ar achlysur Penblwydd Datgan y Gymru Ddi-Niwclaer gan bob un o wyth Cyngor Sirol Cymru – ni fu polisi eich sir erioed yn fwy perthnasol.

Mae pob Cyngor, a thrwy hynny, pob person yng Nghymru yn dioddef effeithiau toriadau mewn gwariant cyhoeddus – mewn tai, iechyd, addysg, swyddi; ar yr un pryd, gwariant milwrol y DU, sef £24 biliwn, yw'r uchaf yn Ewrop o hyd. Eleni, bydd y rhaglen llongau tanfor Trident ynddi ei hun yn costio £1 biliwn. Mae hyn yn wastraff dychrynllyd ar adnoddau, yn enwedig yng nghanol dirwasgiad.

Beth yn y byd ddigwyddodd i'r Difidend Heddwch?

Daliwch ati â'r gwaith da,
Yr eiddoch mewn heddwch
David Morris ASE, Cadeirydd CND Cymru

## Enillwch wyliau yng Nghwba!




Amgaeir 2 lyfryn o docynnau raffl gyda'r rhifyn hwn o Newyddion Gweithredu Heddwch yn cynnig fel gwobr gyntaf gyfle unwaith-mewn-oes i ennill gwyliau yng Nghwba neu £500. Gobeithio y gellwch werthu'r rhain i'ch ffrindiau a'ch cydweithwyr. Os oes gennych lawer o ffrindau ac os ydych yn un da/dda am werthu, cysylltwch â Jill Stallard (05505 260) am gyflenwad pellach!

(Sylweddolwn y cythruddir rhai pobl gan rafflau, ac os ydych yn un o'r rheini, ymddiheurwn. Danfonwch air atom ac fe geisiwn sicrhau na ddanfonir unrhyw docynnau raffl atoch yn a dyfodol).

# Dim ond cyfran fechan...


Yn dilyn Pererindod y Paham? i Fynydd Epynt ar Hydref 10fed 1992 (gweler Maer Oll yn Gysegredig, Newyddion Gweithredu Gaeaf 1992) ysgrifennodd Nia Rhosier, Ysgrifennydd Cyffredinol CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU, at Jonathan Evans, Aelod Seneddol Brycheiniog a Maesyfed, i ofyn beth yw bwriad y LLywodraeth ynglyn a dyfodol Mynydd Epynt nawr bod y rhyfel oer drosodd. Gwnaeth hyn oherwydd teimlad cryf a fynychodd y bererindod ei bod hin hen bryd ir fyddin roir tir hwn yn ol i genedl y Cymry er mwyn ei ddefnyddio at ddibenion heddychol a chymodlon. Un awgrym a gafwyd gan heddychwr blaenllaw oedd y dylid troir pentref ffug yn ganolfan addysg heddwch ac addoliad eciwmenaidd; syniad a fyddai wrth fodd Cymdeithas y Cymod a phawb syn gweithio dros heddwch a chyfiawnder yng Nghymru maen siwr.

Rhoddwyd llythyr Nia i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a derbyniwyd yr ateb a ganlyn:

"... mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau hyfforddi arbenigol megis eiddo Llain Hyfforddi Pont Senni er hyfforddi i ymladd mewn ardaloedd dinesig yn hanfodol. Mae'r math hwn o hyfforddinat yn gyfraniad hynod bwysig i effeithlonrwydd y fyddin, ac i leihau'r nifer a anafir. Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o wariant y Fyddin yn ei grynswth yw gwariant ar hyfforddi.

Rhaid i mi ddweud bod gofynion yr Adran parthed Llain Hyfforddi Pont Senni yn debyg o barhau yn y dyfodol rhagweladwy, ac mae hynny o hyfforddi a wneir yno yn debyg o gynyddu wrth i filwyr ddychwelyd o'r Almaen. Fodd bynnag, gadewch i mi eich sicrhau bod yr Adran Amddiffyn yn cymryd ei chyfrifoldebau i'r boblogaeth leol o ddifri calon, ac mae'n caniatau mynediad i leiniau a ddefnyddir er hyfforddi bellach ble bynnag y bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, yn ychwanegol at y gwasanaethau yng nghyn-gapel y Babell yng Nghwm Cilieni ar Fynydd Epynt, cynhelir gwasanaeth eglwysig blynyddol ym mhentref Imber ar Salisbury Plain.

Yr eiddoch yn gywir,
Robert Cranbourne,
Yr Is-Iarll Cranborne."



# Ffarwel Peter

Llongyfarchiadau i Peter Burt ar ei swydd newydd yn Berkshire! Mawr yw ein colled ni yng Nghymru ar ei ôl. Mae wedi cefnogi gweithgareddau dros heddwch ers blynyddoedd lawer ac ef oedd golygydd Newyddion Gweithredu Heddwch o'r cychwyn cyntaf. Diolch Peter. Fe'th welwyn ni di yn Aldermaston!

## Newyddion Gweithredu Heddwch

**■ Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ar ffurf atodiad i Heddwch ym Ebrill/Mai 1993 ■ Croeso i bob cyfraniad ■ Danfonwch at Jane, 9 Heol Iscoed, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6NB ■ Y dyddiad cau ar gyfer copi yw dydd Gwener 9fed Ebrill 1993 ■ Croesewir ynrhyw gymorth golygyddol**

# Gorau Arf Ysrifbin




## Ymgyrch Lythyru CND Cymru

Annwyl Ddarllenydd Newyddion Gweithredu Heddwch,

Yn y rhifyn diwethaf, fe'ch hanogwyd i ysgrifennu at yr Arlywydd Mitterand i ofyn i Ffrainc ymestyn ei gwaharddiad ar brofion arfau niwclear. Roedd llythyron o Gymru ymhlith y 25,000 a dderbyniodd cyn y Nadolig. Hyd yn hyn, ni welwyd unrhyw arwydd bod Ffrainc yn mynd i ailgychwyn profion!

Y tro hwn, hoffem i chi ysgrifennu at yr Arlywydd Clinton, yn gyntaf i'w annog i sicrhau bod Senedd yr Unol Daleithau yn cadarnhau'r Cytundeb Start 2 gyda'r cyn-Undeb Sofietaidd, ac yn eilbeth, i'w annog i bwyso am Gytundeb Gwaharddiad Profion. Yr Is-Arlywydd Gore oedd un o brif gefnogwyr moratoriwm yr UD ar brofion niwclear, a gwyddys bod gan yr Arlywydd Clinton gydymdeimlad â'r mater, ond nawr mae'n siwr bod pawb yn lluoedd arfog yr UD yn dweud wrtho bod ar yr UD angen arfau niwclear.

Gallai ein neges ni NAWR, ar gychwyn ei Arlywyddiaeth, a thra bod yr UD wedi gohirio profion niwclear, gynorthwyo i gadw DIARFOGI ar frig rhestr amcanion polisi tramor Clinton.

YSGRIFENNWCH AT:
Yr Arlywydd Bill Clinton
Y Tŷ Gwyn,
Washington D.C.,
UDA.

Daliwch i ysgrifennu! Yr eiddoch mewn heddwch, N.G.H.

O.N. Deiseb newydd CND o blaid Cytundeb Gwahardd Profion Niwclear Cynhwysfawr, yn dod cyn hir.



# Plant Chernobyl

Mae rhai ffermydd yng Nghymru yn dal i ddioddef effeithiau damwain niwclear Chernobyl (26ain Ebrill 1986), ond prin bod eu cyflwr hwy yn adlewyrchu sut mae hi ar gyffiniau Chernobyl ei hun. Dioddefodd y bobl yn byw o gwmpas Chernobyl seithgwaith cymaint o ymbelydredd ag a olllyngwyd gan fom Hiroshima, ac mae'r plant, yn enwedig, wedi dioddef yn frawychus.

Fel ymateb positif i'r sefyllfa mae CND Iwerddon wedi trefnu gwyliau i rai o "Blant Chernobyl". Ym 1991, croesawyd parti o 60 o blant am ddwy wythnos, a llynedd rhoesant wyliau tair wythnos o hyd i 70 o blant. Haf eleni, gobeithia CND Iwerddon roi gwyliau i gant a hanner o blant – ond mae arnynt angen ei cymorth ni, ar ffurf cyfraniadau ariannol. A wnewch chi ystyried cyfrannu, os gwelwch yn dda, neu drefnu digwyddiad codi arian, a danfon sieciau'n daladwy i "Cronfa Plant Chernobyl", d/o CND Iwerddon, 8 Sidneyville, Bellevue Park, St Lukes, Cork.

# Cyrch ar BAe!

*'A hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau.'*

## Cleddyfau yn sychau: mae'r droedigaeth wedi cychwyn




Am 4.00 a.m. ar y 6ed Ionawr 1993, mentrodd Chris Cole, Cristion o weithredydd dros heddwch o Rydychen, i mewn i ffatri arfau British Aerospace (BAe) yn Stevenage, Herts, a defnyddiodd morthwylion cyffredin i ddiarfogi darnau trwyn ar gyfer yr Awyren Ymladd Ewropeaidd, yr awyren traw-ymosod Hawk, ac offer milwrol arall. Mae BAe wedi cytuno i werthu 24 awyren Hawk i Indonesia, i'w defnyddio yn erbyn pobl Gorllewin Timor. Cawsai un o'r morthwylion a ddefnyddiwyd gan Chris ei ddefnyddio cyn hynny yng ngweithred Sychau ANZUS yn yr UD.

Cymerwyd Chris i'r ddalfa ymhen awr, wedi iddo ymweld â phedwar adeilad. Gwnaed niwed, yn ôl erlyniaeth y Goron, gwerth o leiaf £475,000. Mae'n bosib y bydd y cyfanswm yn ddwywaith cymaint. Arafodd gweithred ddiweddar yn erbyn lloerenni NAVSTAR (a ddefnyddir i dywys taflegrau Trident) y rhaglen am gyfnod o fisoedd o leiaf. Dichon y bydd y difrod a barodd Chris i'r darnau trwyn yn y pedwar adeilad a'r offer cynhyrchu yn arafu'r rhaglen Awyren Ymladd Ewropeaidd a'r broses o gynhyrchu awyrennau Hawk. Gallai'r oedi hwn arbed llawer bywyd yn Nwyrain Timor a chryfhau'r dadleuon dros ddileu'r cytundeb.

Arllwysodd Chris ei waed ei hun ar offer yn yr adeilad Plastigau Atgyfnerthedig a Microdonfedd lle gwneir holl ddarnau trwyn taflegrau ac awyrennau BAe. Roedd ganddo ddwy faner, gyda 'Gwellwch y Byd – curwch gleddyfau BAe yn sychau' ar y naill a 'Paratowch ffordd yr Arglwydd – Cleddyfau i Sychau' ar y llall. Roedd hefyd yn cario lluniau o blant, a lludw – symbol Cristnogol am edifeirwch. Wedi ei gymryd i'r ddalfa, aeth yr heddlu i'w gartref yn Rhydychen a dwyn ymaith lawer o'i eiddo.

Roedd Chris yn gwisgo cot wen gyda 'BAe Bomb Disposal' wedi ei ysgrifennu ar ei chefn, ac roedd ganddo gerdyn adnabod yn arddull BAe yn dwud arno 'Chris Cole, Diarfogwr'. Pan ataliwyd ef gan y gwarchodwyr am 4.30 a.m., gofynnwyd iddo beth roedd yn ei wneud. Atebodd ei fod wedi dod i ddiarfogi British Aerospace.

Gadawodd Chris ddatganiad ar y safle yn cyplysu ei weithred â Gŵyl Gristnogol yr Ystwyll ar 6ed o Ionawr. Ysgrifennodd, "Mae Gŵyl Ystwyll yn coffau'r adeg pan gyflwynodd tri gŵr anrhegion i'r baban Iesu. Cyflwynir fy rhodd i o ddiarfogi i bob baban a fygythir gan arfau BAe, o Ogledd Iwerddon i Ddwyrain Timor."



Llythyron/cardiau i gefnogi Chris (a gadwyd yn y ddalfa) d/o 9 Chilswell Road, Rhydychen OX1 4PQ; manylion pellach oddi wrth, a chefnogaeth ariannol i: NVRN, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ

# Gwarchae Burghfield

Cynhelir gweithred dorfol heddychlon i fenywod yn unig ar y 14 a'r 15 Mawrth ger SAA Burghfield, ger Reading, y ganolfan ddirgel lle cydosodir ergydion marwol Trident (a thaflegrau eraill) a'u gwasanaethu. Eir ag ergydion niwclear Trident ar hyd ffyrdd cyhoeddus oddi yma i ganolfan llongau tanfor Faslane. Arbrofir â'r ergydion hyn ar diroedd y Shoshone Gorllewinol yng Ngogledd America, gan lygru'r tir a''r bobl ag ymbelydredd.

Sul 14eg am hanner dydd. Ymgynnull a Gwrthdystiad gyda cherddoriaeth, baneri, caneuon a gweithredu.

Llun 15fed. Gwarchae ar y gwersyll ... Ataliwch y gwaith ar argfogaeth niwclear Prydain.

Ymunwch â menywod ar draws y DU sydd yn gweithio i ATAL CLUDO ARFAU NIWCLEAR; ATAL PROFION ARFAU AR DIROEDD Y SHOSHONE GORLLEWINOL; ATAL TRIDENT a CHAU BURGHFIELD.

Cysylltydd lleol: Sian Evans 0222-396563

# Cariad-dystiad

Ymwelodd ymgyrchwyr cariadus yn erbyn Trident â SAA Caerdydd i ddathlu Gŵyl Sant Ffolant a chyflwyno'r dadleuon dros ddewisiadau amgen i gynhyrchu arfau niwclear yn y ffatri. Addurnodd y protestwyr haerllug ffens y ffatriâ chalonnau a blodau, ymuno mewn 'snog-in' ramantus wrth y brif glwyd, a chasglu llofnodion ar gerdyn Ffolant i John Major, yn addo i'w Garu am Byth ond iddo ddileu Trident.

Fel y dywedodd un o'r gwrthdystwyr Ffolant ffôl, "Lot mwy o hwyl na'r digwyddiadau protest arferol, ac mae'n ffordd dda o ddangos nad oes neb yn caru Trident!"

# Hela'r Difidend, Mawrth 10fed

Ar Fawrth 10fed, bydd CND Cymru yn lobio Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Hunt, yn y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd am 11a.m. Byddwn yn rhoi'r ddeiseb wrth-Trident iddo, a gofyn i Mr Hunt i ystyried gweithio o blaid dileu'r peiriant-lladd Trident, a defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael wedyn i wrthbwyso'r toriadau y mae wedi eu gorfodi yng ngwariant y Cynghorau Sir ar wasanaethau o fudd i gymdeithas.

Mae Cymru'n cynnal cryn dipyn o wariant llywodraeth ar baratoadau rhyfel. Byddwn yn gofyn i Mr Hunt weithio i leihau'r gwariant hwn a throsglwyddo adnoddau i'n cynghorau lleol a etholwyd yn ddemocrataidd.

Gofynnwn i chi gefnogi'r Lobi hon. Byddwn yn cyfarfod y tu allan i'r Swyddfa Gymreig, Parc Cathays am 10.30 a.m.

Bydd CND Prydeinig yn trefnu Lobi fawr yn Senedd San Steffan yr un diwrnod yn galw am ddadgyfeirio gwariant milwrol tuag at sicrhau'r Difidend Heddwch. Gobeithio y gall cynrychiolydd o bob etholaeth fod yno i lobio eu Haelodau Seneddol eu hunain.

Gwybodaeth bellach: Jill Stallard 05505 260



## Gwneud ein gorau glas yn Glastonbury!

Y dych chi am helpu i wneud Glastonbury yn llwyddiant anferth unwaith eto? Bob blwyddyn bydd grŵp bychan o bobl o Gymru yn gweithio yn yr Ŵyl – yn stiwardio, rhedeg y maes parcio, codi sbwriel ac ati. Mae'r gwaith yn galed ond mae'n hwyl, ac yn ogystal â chyfrannu at lwyddiant y digwyddiad yn ei grynswth, caiff y gweithwyr bris eu tocyn (roedd tocyn llynedd yn costio £50) a lle arbennig i wersylla, a bydd CND Cymru'n derbyn cyfraniad gan yr Ŵyl. Dyddiadau Gŵyl eleni yw 25-27 Mehefin 1993. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN.

## Heddwch yn y Senedd

Gyda chymaint yn digwydd yn y Senedd, nid all ASau – hyd yn oed y rheini sy'n fawr eu cydymdeimlad – gadw mewn cysylltiad beunydd â gweithgareddau'r mudiad heddwch, felly ei dyletswydd ni yw eu hysbysu o beth sy'n digwydd.

Mae gan CND Prydeinig restr o aelodau CND sydd wedi gwirfoddoli i ysgrifennu at eu HSau i godi materion heddwch. Bob rhyw chwe wythnos byddant yn derbyn awgrymiadau y gallant ddewis testun llythyr o'u plith. Oherwydd bod yr AS wedyn yn derbyn llythyr mewn llawysgrifen gan un o'i h/etholwyr, mae'n cario llawer mwy o bwysau na chylchlythyr (arall eto) o swyddfa grŵp pwyso yn Llundain.

Os gellwch gynorthwyo gyda gwaith o'r fath, boed eich AS â chymdymdeimad (pan all eich llythyr helpu i gadarnhau eu penderfyniad) neu'n wrthwynebus (pan ellwch eu hatgoffa o safbwyntiau eraill), cysylltwch â JEFF IEZZI, Swyddog Seneddol, CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.



## Gweithredwch!

### GWEWCH e!

Carai Masnachu CND (0792 830330) glywed gan unrhywun sy'n mwynhau gweu a fyddai'n fodlon gweu menig ac ati i'w gwerthu ar ein stondin. Byddem yn darparu patrymau syml a gellir defnyddio hen ddarnau o wlân. Yr elw i goffrau CND Cymru.

### STWFFIWCH e Newyddion Gweithredu heddwch

Mae danfon Heddwch at ein holl aelodau yn andros o waith i un person, ond dim ond prynhawn o waith ydyw gyda thipyn o gymorth. Buasem yn croesawu rhagor o wirfoddolwyr i stwffio amlenni ar bnawn Sul yn Siop Heddwch Caerdydd. Bydd y sesiwn nesaf ar ddydd Sul 9fed Mai am 2 p.m., lluniaeth yn rhad ac ddim a chwmniaeth wych! Cysyllter â Jane ar 0222 751264 os gellwch helpu.

### GWERTHWCH e yn Eisteddfod yr Urdd

Cynhelir Steddfod yr Urdd yng Ngorseinon ger Abertawe o'r 31ain Mai i'r 5ed Mehefin. Bydd gan CND Cymru stondin yno, fel arfer, ac rydym yn edrych am bobl i helpu gyda hi, Cymry Cymraeg o ddewis. Os gellwch gynnig dydd, neu hyd yn oed hanner dydd, byddai'n dda iawn gennym glywed gennych ar 0792 830330.

### SGWENNWCH e a rhoi'r gair ar led

Os nad yw gweithgareddau a digwyddiadau'ch grŵp chi'n ymddangos yn y rhifyn hwn, gwnewch yn siwr y byddant yn y rhifyn nesaf drwy ysgrifennu amdanynt a danfon lluniau hefyd os bydd modd at NEWYDDION GWEITHREDU HEDDWCH!

## Cysylltiadau

### CYSYLLTIADAU YMGYRCHU

**Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclaer ac Ynni Niwclaer:**
**Brian Jones,** 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Tel 0792 830330

**Diarfogi a Datblygu, Trawsnewid Amddiffyn ac Ymgyrchu'n erbyn y Fasnach Arfau:**
**Mary Jones,** d/o y Siop Heddwch, 56 Macintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Tel 0222 489260

**Dadfilwreiddio Cymru:**
**Rod Stallard,** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel 05505 260

**Hedfan Isel:**
**Gillian Metcalf,** Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan SA48 8JZ. Tel 0570 45576

**Ieuenctid CND:**
**Joe Castle,** 25 Aberystwyth Crescent, Y Barri CF6 8EH. Tel 0446 738020

### MWY O WYBODAETH?

### UNRHYW SYNIADAU?

**Cysylltwch â'ch Is-Gadeirydd CND Cymru lleol:**
**Ann Hall,** Blaenau Ffestiniog **Tel. 0766 831356**
**Medi James,** Aberystwyth **Tel 0970 832725**
**Rod Stallard,** Llanymddyfri **Tel 05505 260**
**Brian Jones,** Abertawe **Tel 0792 830330**
**neu Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru, Jill Stallard 05505 260**

## Digwyddiadau

### MAWRTH

**Merch 10fed** Lobi'r Difidend Heddwch yn Llundain a Chyfarfod Cyhoeddus gyda Ken Livingstone. Cyswllt: Mary Jones 0792 774687

**HEFYD: Merch 10fed 11am** Lobi'r Difidend Heddwch yn y Swyddfa Gymreig (gwel. tud. 3)

**Iau 11eg** Cyfarfod Ymgyrchu Siop Heddwch/CND Cymru. Cyswllt: Mary Jones 0792 774687

**Sul-Llun 14eg-15fed** Gwarchae Burghfield (gwel. tud. 3)

**Iau 18fed 7.30** Cyfarfod CND Abertawe. Fideo o wrthdystio yn erbyn profion arfau niwclear Rwsiaidd. Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Page St., Abertawe. 0792 830330

**Sad.20fed 11am CND Cymru:** Cyfarfod gwanwyn Gogledd Cymru yn y Ganolfan Heddwch a Chyfiawnder, Wrecsam. Croeso i bob aelod a chyfaill. Trafodaethau ar ymgyrchu yn erbyn Hedfan Isel, cysylltiadau rhwng Ynni Niwclear ac Arfau. Cyswllt: Ann Hall 0766 831356 neu Dave Andrews 0978 310491.

**Sad 20fed 11am - 1pm** Ieuenctid CND Caerdydd yn dosbarthu taflenni, Stondin Heddwch, Caerdydd

**Merch 24ain 7.30 pm** Lleisiau dros Heddwch yn Eglwys y Ddinas, Windsor Place, Caerdydd. Cadeirydd: Parch. Douglas Bales. Gwaith dros heddwch yn Iwgoslafiua. Siaradwyr yn cynnwys Al McLeod (Cyngor Heddwch Cenedlaethol) Vesna Terselic (Croatiad yn gweithio yng Nghanolfan Wrth-ryfel Zagreb) a Dr Amra Cengic (Bosniad yn gweithio gyda ffoaduriaid yn Zagreb)*Cyswllt: 0792 774687*

**Sad 27ain CND Cymru;** Cyfarfod Gwanwyn De Cymru yng Nghasnewydd. Cyswllt: Mary Jones 0792 774687

**Sad 27ain 11am-4pm.** Ymgynghoriad Grwpiau Cymdeithas y Cymod lleol yng Nghanolfan Beth Seilin, Aberystwyth. Cyswllt: Nia Rhosier 0978 860835.

### EBRILL

**Iau 1af Cyfarfod** i drafod rhifyn nesaf Newyddion Gweithredu Heddwch. 6.30pm Siop Heddwch

**Mawrth 6ed** CND Penybont Noson Allan 7.30 Gwesty'r Royal, Pontycymer. Mynediad £1.00, bwyd ar gael. Mwynhewch gwmniaeth dda a helpu'r achos! Cyswllt: 0446 774452

**Iau 8fed** Cyfarfod Ymgyrchu Siop Heddwch/CND Cymru. Cyswllt: Mary Jones 0792 774687

**Gwen 9fed** Dyddiad olaf ar gyfer erthyglau/digwyddiadau/lluniau ar gyfer y rhifyn diwethaf o Newyddion Gweithredu Heddwch.

**LLlun 12fed** DIGWYDDIAD HEDDWCH LLUN Y PASG BANNAU BRYCHEINIOG Mae Ystâd 10,000 erw Cnewr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dal i fod dan fygythiad defnydd gan y Peiriant Militaraidd. Mae CND Cymru yn gwrthwynebu'r militareiddio pellach hwn ar ein tiroedd ac mae'n trefnu digwyddiad Pasg i ddangos ein gwrthwynebiad. Cysyllter â: Rod Stallard 05505 260

**Iau 15fed** CND Castell Nedd Dosbarthu taflenni o ddrws i ddrws, yna noson gymdeithasol mewn tafarn. 7.30 p.m. Manylion: 0792 864662

### MAI

**Sad 1af** Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Cyswllt: Nia Rhosier 0978 860835

**Sul 9fed 2pm** Heddwch Rhif 3, stwffio amlenni, Siop Heddwch. Cyswllt: Jane 0222 751264

# MAASTRICHT A MILWREIDDIO

## Erthygl Nodwedd Arbennig Newyddion Gweithredu Heddwch

Mae Cytundeb Maastricht neu, yn fwy manwl, y cynigion ynddo sydd yn ymwneud ag amddiffyn a diogelwch cyffredin Ewropeaidd, yn her i bob un ohonom yn y mudiad heddwch.
A all Maastricht arwain tuag at dranc cynghreiriau milwrol ymosodol megis NATO neu a ydyw'n ymgais i'w hatgyfnerthu?
Y tu fewn, cael dwy farn wrthgyferbyniol gan yr ASEau Llafur Cymreig Wayne David a Llew Smith.



### Ein her!

Erbyn y gynhadledd ryng-lywodraethol nesaf ym 1996/97 mae'n debyg y bydd yna aelodau newydd o'r Gymuned nad ydynt yn aelodau o NATO – a allai oleuo'r ffordd at greu strwythur diogelwch yn seiliedig ar heddwch a chydweithrediad. Beth bynnag a ddigwydd gyda Maastricht bydd angen i ni yn y mudiad heddwch hoelio ein golygon ar sefydliadau Ewropeaidd yn y blynyddoedd o'n blaenau ... a chreu cysylltiadau newydd yn ogystal â chryfhau cynghreiriau sy'n bod eisoes gyda'n cyfeillion Ewropeaidd. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i weithio dros bolisi tramor a diogelwch Ewropeaidd teg a ddylai gynnwys: • gweithio o blaid Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr • ffrwyno'r fasnach arfau • atgyfnerthu a sicrhau adnoddau ar gyfer y CSCE • cysylltu Ewrop â Chenhedloedd Unedig diwygiedig • gweithio dros ddiarfogi a datblygu

David Morris ASE, Cadeirydd CND Cymru

# Gweithio Gyda'n Gilydd dros Heddwch

Ar y naill ochr a'r llall yn nadl Maastricht gwneir honiadau eithafol ac anghywir ynglŷn â sut mae'r Cytundeb hwn yn mynd i 'lwyr drawsnewid' – er gwell neu er gwaeth – y byd presennol. Gwelir hynny yn fwy nag unlle arall mewn perthynas â'r cynigion o blaid polisi amddiffyn a diogelwch Ewropeaidd cyffredin.

A minnau'n aelod o CND ers blynyddoedd, credaf y dylid cadarnhau'r Cytundeb ar Uniad Ewropeaidd. Ond deuthun i'r casgliad hwnnw ar ôl pwyso a mesur manteision ac anfanteision y Cytundeb, ac ar ôl ystyried beth arall fyddai'n debyg o ddod yn ei le. Mewn geiriau eraill, mae fy nghefnogaeth i Maastricht yn amodol.

Un o'r meysydd y mae gennyf amheuon ynglŷn ag ef yw'r 'piler' sydd yn datgan y dylai Ewrop ddatblygu polisi amddiffyn torfol. Mae fy amheuon yn seiliedig ar y gred mai'r peth olaf sydd ei angen ar Ewrop yw dôs arall o filitariaeth a pharhau â'r gwariant uchel presennol ar arfau. Y gwrthwyneb llwyr sydd ei eisiau.

Ar y llaw arall, er cwymp comiwnyddiaeth Sofietaidd, mae un pwer mawr wedi tra-arglwyddiaethu ar y byd – UDA. Nid yw NATO yn ddim mwy na chlwb cefnogwyr militaraidd Americanaidd, a ledled y byd, gwelwn dro a thro yr Unol Daleithau wrthi'n gorfodi'r agenda wleidyddol, weithiau tan gochl y Cenhedloedd Unedig, weithiau ar ei phen ei hun.

O leiaf bydd Maastricht yn bwrw amheuaeth ar yr hegemoni hon gan yr UD. Bydd yn creu am y tro cyntaf fframwaith Ewropeaidd y gall aelod-wladwriaethau'r GE weithio o'i fewn i ddatblygu polisi a all gyfeirio'r ffordd tuag at drefn fyd-eang newydd, heddychlon. Ac o fewn Ewrop ei hun, bydd Maastricht yn caniatau i genhedloedd Ewrop weithio gyda'i gilydd i greu cyd-bolisiau ar bynciau sydd wedi peri rhaniadau ers canrifoedd. Ni ddylid anghofio bod y cyfryw raniadau wedi arwain yn fynych iawn at wrthdaro erchyll.

Mae pa un ai y datblyga Ewrop yn wrthbwysau effeithiol a heddychlon i'r Unol Daleithau yn dibynnu ar nerth y mudiad heddwch yn Ewrop a nerth cymharol y grymoedd gwleidyddol sydd yn coleddu ei amcanion a'i werthoedd. Ni fydd Maastricht, ar ei ben ei hun, yn trawsnewid dim – wedi'r cwbl, dim ond cytundeb ydyw.

Beth os gwrthodir Maastricht? Mae un peth yn sicr, gan gofio grym presennol y Dde yn Ewrop, sef na chawn ni gytundeb mwy Sosialaidd. Y tebygrwydd yw y cawn ni naill ai Ewrop 'ddwy-adran' gyda Phrydain a Chymru yn yr ail adran. Neu fe welir twf mewn neo-ffasgaeth a chenedlaetholdeb asgell dde. Er gwaethaf ei ffaeleddau ni all neb wadu delfrydaeth ryngwladol Cytundeb Maastricht. Dyna pam mae angen adeiladu ar sail y Cytundeb ar Uniad Ewropeaidd, nid ei ddinistrio.

*Wayne David, ASE De Cymru*

# Sicrhau Ein Dyfodol?

## Sut y Gallai Maastricht danseilio diarfogi

Gyda'r ddadl fawr ar ddyfodol Ewrop yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ERM, EMU a phroblemau economaidd, mae perygl yr anwybyddir y trosglwyddiad pwer dros faterion amddiffyn a diogelwch yn Ewrop o lywodraethau a seneddau i'r Comisiwn anetholedig a chorff cysgodlyd Undeb Gorllewin Ewrop (UGE). Rydym yn wynebu Ewrop wedi ei rheoli gan y bancwyr a'r bom-wneuthurwyr.

Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith mai un o'r amodau a gynigiwyd gan bleidiau gwleidyddol Denmarc i greu 'cyfaddawd materol' a allai wneud Maastricht yn fwy derbyniol yn wleidyddol i bobl Denmarc – er nad oes sicrwydd yn y byd y derbynir hynny – yw na fydd gofyn i Ddenmarc ddod yn rhan o'r uniad amddiffyn newydd. Dyma arddangosiad agored o'r ffaith nad yw'r Daniaid democrataidd am gefnogi polisi Ewro-amddiffyn annemocrataidd a niwclear ei sail.

Heriodd yr Ewro-wrthwynebydd Toriaidd Bill Cash y Swyddfa Dramor ym mis Gorffennaf 1992 ar y trosglwyddo penderfyniadau ar bolisi amddiffyn y byddai Maastricht yn ei olygu. Dywedodd yr Ewro-gefnogwr Tristan Garel-Jones – dyn y Comisiwn yn Whitehall – wrth y Senedd:

'Nad effeithir ar safle'r DU fel llofnodydd Cytundeb Gogledd yr Iwerydd gan bolisi tramor a diogelwch (Ewropeaidd) cyffredin. Mae Cytundeb Maastricht – erthygl J 4.4 – yn ei gwneud hi'n glir y bydd polisi tramor a diogelwch yn parchu oblygiadau rhai aelod-wladwriaethau o dan Gytundeb Gogledd yr Iwerydd ac yn gydnaws â'r polisi diogelwch ac amddiffyn cyffredin a sefydlwyd o fewn y framwaith hwnnw.' (Hansard 16.7.92, col. 963)

Yn ei femorandwm i'r Pwyllgor Seneddol ar Faterion Tramor ym mis Chwefror y llynedd ar 'Ewrop ar ôl Maastricht' dywedodd y Swyddfa Dramor ei bod am weld 'datblygu hunaniaieth amddiffyn Ewropeaidd cydnaws â NATO, ac a fynegir drwy UGE...'

... Mae rhai wedi dadlau y bydd Cytundeb Maastricht yn cryfhau swyddogaeth y Senedd Ewropeaidd drwy ganiatau iddi archwilio peth deddfwriaeth ac, mewn rhai meysydd, caiff bwerau deddfwriaethol cyfyngedig o dan y drefniadaeth 'cydsyniad a chydweithrediad positif'. Mewn gwirionedd, bydd Maastricht yn cynyddu'r diffyg democrataidd nid ei leihau. Bydd llai o bwer gan gynrychiolwyr etholedig i effeithio ar benderfyniadau pwysig gan y GE wrth i'r rheini symud i mewn i neuaddau cyfrin y driwriaeth ddiogelwch newydd: Y Comisiwn, UGE a grŵp Ewropeaidd NATO.

Yn wir, dywedodd un arbenigwr Ewropeaidd, Peter Ludlow, cyfarwyddydd y Ganolfan Astudiaethau Polisi Ewropeaidd ym Mrwsel. bod 'Maastricht yn canu cnul angau rhyng-lywodraetholdeb' ac y canolid penderfyniadau ym Mrwsel. Yno, gall y Comisiwn, UGE a SHAPE – pencadlys Ewropeaidd NATO – reoli'r Ewro-fom.

Nid yw'r Daniaid am fod â rhan yn hyn oll ac ni ddylem ninnau.

*Llew Smith, AS Llafur Blaenau Gwent ac ASE De-ddwyrain Cymru*

